Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

**TEITL** **Rheoliadau Glanedyddion (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020**

**DYDDIAD** **21 Hydref 2020**

**GAN** **Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**

**Offeryn Statudol sy'n diwygio is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig**

**Rheoliadau Glanedyddion (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020**

Mae Rheoliadau 2020 yn diwygio'r ddeddfwriaeth a ganlyn:

Deddfwriaeth yr UE

- Rheoliad (EC) Rhif 648/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 31 Mawrth 2004 ar lanedyddion.

Deddfwriaeth ddomestig

- Rheoliadau Glanedyddion (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019;
- Rheoliadau Glanedyddion (Diogelu) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019; a
- Rheoliadau Glanedyddion 2010.

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Nid yw Rheoliadau 2020 yn effeithio ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.

Mae'r diwygiadau yn sicrhau bod y Deyrnas Unedig (DU) yn cyflawni ei rhwymedigaethau o dan y Protocol ar Iwerddon/Gogledd Iwerddon i'r cytundeb ymadael ("y Protocol") ac i roi sail gyfreithiol i'r Protocol mewn perthynas â Rheoliad (EC) Rhif 648/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 31 Mawrth 2004 ar lanedyddion, fel sy'n ofynnol ar ddiwedd y Cyfnod Gweithredu.

Mae'r diwygiadau hyn hefyd yn rhoi effaith i fynediad di-rwystr i lanedyddion o Ogledd Iwerddon i mewn i Brydain Fawr.

**Diben y diwygiadau**

Mae Rheoliadau 2020 yn diwygio Rheoliadau Glanedyddion (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019; Rheoliadau Glanedyddion (Diogelu) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019; a Rheoliadau Glanedyddion 2010.

Mae'r Protocol yn ei gwneud yn ofynnol bod Rheoliad (EC) Rhif 648/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 31 Mawrth 2004 ar lanedyddion yn parhau i fod yn gymwys i Ogledd Iwerddon er mwyn diffinio'n glir raddfa diriogaethol deddfwriaeth yr UE a ddargedwir ar ddiwedd y Cyfnod Gweithredu.

Mae Rheoliadau 2020 a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig sy'n manylu tarddiad, diben ac effaith y diwygiadau i'w gweld yma:
https://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2020/9780348213331

**Pam rhoddwyd cysyniad**

Mae cysyniad wedi'i roi i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran, ac ar ran, Cymru, am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd a hwylustod ac i sicrhau cysondeb â'r llyfr statud. Mae'r diwygiadau wedi'u hystyried yn llwyr; ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithio ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.